| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 23 Mawrth, 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Teitl:** | **Diweddariad Diogelu Corfforaethol** |

**1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiogelu Corfforaethol ym mis Awst 2015.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Mae'r adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau mewn diogelu corfforaethol ers cyhoeddi adroddiad Archwilio Mewnol yn 2015. Rhoddodd yr adroddiad archwilio 'Sicrwydd Isel' felly gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd i sicrhau bod y materion yn derbyn sylw.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Y Pwyllgor i adolygu cynnydd ac i benderfynu a oes angen adroddiad cynnydd pellach.

**4. Manylion yr adroddiad**

Atodiad 1 yw'r adroddiad dilynol i'r Archwiliad Mewnol sy'n dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud wrth weithredu'r cynllun gweithredu. Yn benodol, mae llywodraethu wedi gwella ac mae gan y Panel Diogelu raglen waith mwy penodol fel y gellir blaenoriaethu ei waith a monitro perfformiad. Bellach mae mwy o adnoddau pwrpasol yn cael eu defnyddio ar gyfer diogelu corfforaethol trwy gael Cadeirydd y Panel i gynyddu ei gyfraniad, gan gynnwys cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr y Panel gwasanaeth.

Mae rhywfaint o waith dal i'w wneud i sicrhau bod aelodau o staff ac aelodau etholedig yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu corfforaethol, gan gynnwys ymgyrch hybu i lansio'r Polisi Diogelu Corfforaethol newydd. Yn ogystal, mae angen datblygu a rhoi ar waith y modiwl hyfforddiant corfforaethol a gynlluniwyd ac mae angen i bob aelod etholedig i fynychu'r sesiynau hyfforddi diogelu corfforaethol gorfodol.

O ystyried y cynnydd a wnaed gyda'r cynllun gweithredu, rydym wedi gwella ein graddfa sicrwydd i 'Canolig'.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

6. **Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

8. **Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Archwilio ac eraill?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.